ATODLEN 3

Gofynion yn ôl disgresiwn

# RHAN 1

## Gosod gofynion yn ôl disgresiwn a gweithdrefn

### Penderfynu ai gosod gofynion yn ôl disgresiwn ai peidio

**5.**—(1) Ar ddiwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau ar gyfer gwneud sylwadau a gwrthwynebiadau o dan baragraff 4, rhaid i'r gweinyddwr benderfynu ai—

(a) gosod un neu ragor o ofynion yn ôl disgresiwn gydag addasiadau neu hebddynt; neu

(b) gosod unrhyw ofyniad arall yn ôl disgresiwn y mae gan y gweinyddwr y pŵer i'w osod o dan yr Atodlen hon.

(2) Wrth wneud penderfyniad o dan y paragraff hwn rhaid i weinyddwr ystyried unrhyw sylwadau neu wrthwynebiadau a wnaed gan y gwerthwr yn unol â pharagraff 4.

(3) Ni chaiff gweinyddwr benderfynu gosod gofyniad yn ôl disgresiwn yn unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol—

(a) os gosodwyd eisoes ofyniad yn ôl disgresiwn mewn perthynas â'r un weithred neu anwaith;

(b) os cafwyd eisoes ryddhad rhag atebolrwydd i gosb ariannol benodedig mewn perthynas â'r un toriad yn y Rheoliadau drwy dalu swm penodedig;

(c) os gosodwyd cosb ariannol benodedig mewn perthynas â'r un toriad yn y Rheoliadau.

(4) Ni chaiff gweinyddwr benderfynu o dan y paragraff hwn i osod cosb ariannol benodedig yn lle gofyniad yn ôl disgresiwn.

(5) Heb gyfyngu ar y pŵer o dan is-baragraff (1), caiff gweinyddwr benderfynu beidio â gosod gofyniad yn ôl disgresiwn os yw'r gweinyddwr o'r farn y byddai'n anfuddiol gwneud hynny o dan holl amgylchiadau'r achos.

(6) Pan fo'r gweinyddwr yn penderfynu gosod gofyniad yn ôl disgresiwn, rhaid iddo wneud hynny drwy gyflwyno'r hysbysiad terfynol i'r gwerthwr(**1**).

(7) Rhaid i'r hysbysiad terfynol gydymffurfio â pharagraff 6.

(**1**) I gael ystyr "*the final notice*" *gweler* paragraff 13(1)(d) o Atodlen 6 i Ddeddf Newid Hinsawdd 2008.